# Deddf Ymddygiad Gwrthgymdeithasol, Troseddu a Phlismona 2014
## (YG yn ymwneud â Thai)

**Mae Ymddygiad gwrthgymdeithasol yn parhau i fod yn un o'r prif faterion sy'n effeithio'n ddifrifol ar fywydau a chymunedau pobl. Os nad ymdrinnir ag ef, gall yr effaith fod yn ddinistriol ac yn y pen draw, gall achosi marwolaeth i bobl sy'n agored i niwed. Mae angen i asiantaethau wneud penderfyniadau anodd drwy'r amser ynghylch y ffordd i ddelio ag ymddygiad gwrthgymdeithasol ac yn aml nid yw'n hawdd.**

Rhoddwyd cydsyniad brenhinol ar y Ddeddf newydd ym mis Mawrth 2014 ac y mae'n rhesymoli nifer o bwerau blaenorol ar gael i'r heddlu, awdurdodau lleol a landlordiaid cymdeithasol sy'n gweithredu yng Nghymru a Lloegr. Y brif effaith ar landlordiaid cymdeithasol yw'r Waharddeb Sifil sy'n disodli'r Gwaharddeb Ymddygiad Gwrthgymdeithasol. Mae'n rhoi landlordiaid cymdeithasol ar sail gyfartal â'r heddlu ac awdurdodau lleol wrth ymdrin ag ymddygiad gwrthgymdeithasol yn ymwneud â thai.

Yn ogystal â nifer o bwerau newydd, lle gall landlordiaid cymdeithasol gefnogi asiantaethau eraill, mae'r Ddeddf yn cynnwys rhai diweddariadau i ddeddfwriaeth cŵn peryglus ac ymgynghori ffurfiol gyda landlordiaid cymdeithasol a'u tenantiaid a'u preswylwyr mewn meysydd fel adolygiadau achos.

### Rhesymau dros y Ddeddf
Mae'n rhaid i'r rhai sy'n gweithio yn y sector tai cymdeithasol gydbwyso anghenion y gymuned gyda hynny o aelwydydd lle mae pobl sydd yn "anghymdeithasol" yn byw. Weithiau mae YG yn arwydd o faterion cymhleth mewn cartref megis Cam-drin Domestig neu ddibyniaeth ar gyffuriau neu alcohol, ond gall yr effaith ar y gymuned ac unigolion fod yn drychinebus. Nid oes gan landlordiaid cymdeithasol mewn rhai achosion, y pŵer i ddelio â materion a dyna pam ei bod yn hynod o bwysig i sicrhau bod yr holl asiantaethau yn gweithio gyda'i gilydd.

### Rhoi'r Dioddefwyr yn Gyntaf

### Sbardun Cymunedol
### (weithiau a elwir yn Adolygiad Achos YG)

Yn y Ddeddf newydd, mae pwyslais clir ar roi'r dioddefwr yn gyntaf, ac mae mesur newydd o'r enw Sbardun Cymunedol sy'n caniatáu i ddioddefwyr YG parhaus, sydd wedi rhoi gwybod am ddigwyddiadau i un neu fwy o asiantaethau yn flaenorol, i ofyn am adolygiad am eu hachos lle maent yn teimlo nad yw'r camau a gymerwyd wedi bod yn ddigonol. Gellir gwneud hyn drwy gysylltu â Swyddog YG yr Awdurdod Lleol. Mae rhai ardaloedd wedi datblygu dull gweithio ar y cyd (www.southwalescommunitytrigger.wales)

## Unioni Cymunedol

Mae hyn yn rhoi llais i'r gymuned a dioddefwyr mewn ymateb y tu allan i'r llys ar droseddau ac ymddygiad gwrthgymdeithasol lefel isel. Mae gofyniad i Swyddogion Cymorth Cymunedol yr Heddlu ymgynghori ag aelodau o'r cyhoedd a chynrychiolwyr y gymuned. Mae'n rhaid i'r person gyfaddef i'r digwyddiad ac mae angen tystiolaeth. Dylai dogfen Unioni Gymunedol gael ei gynhyrchu a dylai gynnwys ystod o ymatebion megis gwneud iawn, cyfiawnder adferol neu adsefydlu. Yna, mae angen cytuno ar gynllun gweithredu.

## Yr Offer a'r Pwerau Newydd

Mae 6 o fesurau newydd sy'n rhesymoli'r nifer o bwerau blaenorol sydd ar gael i'r heddlu, awdurdodau lleol a landlordiaid cymdeithasol. Mae rhai yn canolbwyntio ar weithredoedd y tu allan i'r achosion llys ac yn rhoi cyfle i droseddwyr newid eu hymddygiad a mynd i'r afael â materion sylfaenol.

1. **Gwaharddebau Sifil -** Y nod yw mynd i’r afael ag YG cyn iddo waethygu. Gall y waharddeb gynnwys amodau a gofynion ar gyfer y person i fynd i'r afael â'r achosion sylfaenol. Gall Landlordiaid Cymdeithasol Cofrestredig ymgeisio am y rhain.

2. **Gorchmynion Ymddygiad Troseddol –** Mae'r rhain yn caniatáu i lys troseddol i gyhoeddi gorchymyn yn erbyn unrhyw berson sy'n euog o drosedd er mwyn mynd i'r afael ag ymddygiad gwrthgymdeithasol parhaus a'r rhai sy'n ymwneud â gweithgarwch troseddol. Bydd gorchmynion yn cynnwys gofyniad rhoi'r gorau'r ymddygiad gwrthgymdeithasol a / neu ymddygiad troseddol, ac i fynd i'r afael ag achosion sylfaenol. Dim ond Awdurdodau Lleol a’r Heddlu a all wneud cais am y rhain.

3. **Pwerau Gwasgaru –** Mae’r rhain yn gofyn i berson sy'n cyflawni, neu sy'n debygol o gyflawni trosedd neu anhrefn ymddygiad gwrthgymdeithasol, i adael yr ardal am 48 awr. Os bydd y pŵer yn cael ei ddefnyddio mewn ymateb i gŵyn, dylai'r dioddefwr gael ei hysbysu. Gall hyn gael ei ddefnyddio ar unrhyw un dros ddeg oed. Dim ond swyddogion Cymorth yr Heddlu a'r Heddlu a all ddefnyddio'r pwerau hyn.

4. **Rhybudd Diogelwch Cymunedol -** Mae hwn er mwyn atal person dros 16 oed, busnes neu sefydliad rhag cyflawni ymddygiad gwrthgymdeithasol (gan gynnwys niwsans sŵn) sy'n difetha ansawdd byw'r cymunedau. Gall hwn gael ei gyhoeddi gan Landlordiaid Cymdeithasol Cofrestredig.

5. **Gorchymyn Amddiffyn Mannau Cyhoeddus -** Mae hwn er mwyn atal unigolion neu grwpiau rhag cyflawni ymddygiad gwrthgymdeithasol mewn mannau cyhoeddus ac sy'n

cael effaith andwyol ar y gymuned ac yn barhaus ac yn afresymol. Gall hwn gael ei gyhoeddi gan Gynghorau Lleol ar ôl ymgynghori gyda Heddlu.

6. **Pwerau Cau –** Mae’r rhain er mwyn cau adeiladau yn gyflym - adeiladau sy'n cael eu defnyddio, neu'n debygol o gael eu defnyddio i gyflawni niwsans neu anhrefn. Gellir eu cyhoeddi tu allan i'r llys yn y lle cyntaf, a all gau'r safle am hyd at 48 awr ond ni all atal y perchennog rhag cael mynediad i'r eiddo. Mae angen gorchymyn llys i gau'r safle am hyd at 6 mis. Gall y cynghorau a'r Heddlu wneud cais am y rhain.

   Gall effaith ymddygiad gwrthgymdeithasol fod yn ddifrodus i unigolion a chymunedau. Mae'r Ddeddf newydd i fod i helpu landlordiaid cymdeithasol ac aelodau'r gymuned fod yn well wrth fynd i'r afael ag ymddygiad gwrthgymdeithasol ac achosion ymddygiad gwrthgymdeithasol. Mae disgwyl i bob landlord cymdeithasol adolygu eu polisi a gweithdrefnau ymddygiad gwrthgymdeithasol er mwyn ystyried y Ddeddf newydd a dylent gynnwys tenantiaid wrth adolygu arferion cyfredol. Dylai tenantiaid hefyd allu herio eu landlord os ydynt yn teimlo nad yw'r Polisi a'r Weithdrefn yn gweithio. Fodd bynnag, mae'n bwysig bod tenantiaid yn gwybod beth y gall landlordiaid eu gwneud a'r hyn na allant ei wneud i fynd i'r afael ag ymddygiad gwrthgymdeithasol.

   Mae TPAS Cymru wedi datblygu ystod o wasanaethau i helpu tenantiaid a landlordiaid i weithio gyda'i gilydd i fynd i'r afael ag ymddygiad gwrthgymdeithasol ac mae wedi cyflawni gwaith ar draws Cymru.